**Cyngor Tref Amlwch Town Council**

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, nos Fawrth Chwefror 24, 2026 am 7yh.

*Minutes of the Full Council meeting held at the Council Chamber, Tuesday February 24, 2026 at 7pm.*

**Presennol/Present:**

Gareth Winston Roberts OBE, Gerry Belanger, Myrddin Owens, Meg Roberts, Gordon Warren, Julie Edwards, Noel Kerr, Liz Wood, Alan Wood, Aled Morris Jones

**Ymddiheuriadau/Apologies:**

Gareth Thomas, Geraint Thomas, John Gill, Llinos Knowles Williams, Veronica Holdsworth, Derek Owen

**Yn bresennol/In attendance:**

Carli Evans Thau (clerc/clerk), Hywel Hughes (cyfieithu/translator)

**1 Croeso ac Ymddiheuriadau / Welcome and Apologies**

Bu Gareth Winston Roberts OBE gadeirio'r cyfarfod a chroesawy pawb yn bresennol.

*Gareth Winston Roberts OBE chaired the meeting and welcomed all present.*

**2 Datgan Diddordeb / Declaration of Interest**

Meg Roberts - cais cynllunio Ffordd Tan y Bryn Road planning application

**3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf / Minutes of the Last Meeting**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, cynnig Myrddin Owens, eilio Julie Edwards.

*The minutes of the last meeting were approved, proposed Myrddin Owens, seconded Julie Edwards.*

**4 Materion yn Codi / Matters Arising**

Dim materion yn codi / *No matters arising.*

**5 Cyfarfodydd Allanol / External Meetings**

5.1 Cafwyd grynodeb am gyfarfod gyda Nikki Jones, adran dai CSYM, ble bu trafod prosiect i wella trac beicio Craig y Don, mae disgwyl i'r swyddogion ddod yn ol gydag manyldeb am y gwaith, mae grant hyd at £15k ar gael gan CSYM. Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod wedi eu rhannu gyda'r cynghorwyr er gwybodaeth.

*A summary was given of a meeting with Nikki Jones, IACC housing department, where a project to improve the Craig y Don cycle track was discussed, the officers are expected to come back with details about the work, a grant of up to £15k is available from IACC. It was confirmed that the minutes of the meeting had been shared with the councillors for information.*

5.2 Cafwyd adroddiad gan Gordon Warren yn dilyn cyfarfod Fforwm Cyswllt Mon. Bu trafod cyllideb y cyngor sir, ynghyd a'r ymgynghoriad ar wastraff ac ailgylchu. Cadarnhawyd bod adroddiad y cyfarfod wedi ei rannu gyda gyda'r aelodau er gwybodaeth.

*A report was given by Gordon Warren following the meeting of Anglesey Liaison Forum. The county council's budget was discussed, together with the consultation on waste and recycling. It was confirmed that the report of the meeting had been shared with the members for information.*

**6 Pwyllgor Cyllid / Finance Committee**

Cafwyd adroddiad gan Myrddin Owens yn dilyn cyfarfod y pwyllgor. Bu cymeradwyo nifer o daliadau fel yr arfer, mae manylion pellach ar gael gan y clerc. Bu cadarnhau balans pob cyfrif banc.

Bu ystyried un cais am gefnogaeth ariannol gan riant ar ran tim pel droed dan 14 oed Clwb pel Droed Amlwch. Bu'r pwyllgor argymell peidio a chefnogi y tro hwn, ac annog cyswllt a Medrwn Mon i weld os oedd unrhyw grantiau ar gael. Bu'r Cyngor Llawn dderbyn yr argymhelliant. Bu Alan Wood atal ei bleidlais gan nodi cyswllt a'r clwb. Cafwyd wybod bod disgwyl gwybodaeth pellach gan Yr Arwydd cyn gallu ystyried eu cais yn llawn a bu gohurio'r drafodaeth nes y cyfarfod nesaf.

Mewn ymateb i'r manyldeb gwaith ar gyfer torri y caeau chwarae am y tair mlynedd nesaf, bu agor tri amlen caedig yn y cyfarfod. Bu'r pwyllgor argymell bod y Cyngor yn derbyn y pris isaf am y gwaith sef Sion Williams, Fali. Ni fu gwrthwynebiad, y clerc i gysylltu a'r contractwyr i gadarnhau.

Ni fu diweddariad am adeiladau Porth Amlwch, mae disgwyl gwybodaeth pellach gan y cyfreithiwr, mae'n debyg bod yntau yn disgwyl gwybodaeth pellach gan CSYM. Bu Alan Wood ofyn bod cysylltu eto a'r cyfreithiwr gan nodi bod colli tymor arall o ddefnydd yr adeilad. Ni fu eilydd. Nodwyd bod diogelu'r adeilad yn bwysig a bod gwaith i wneud hynnu yn parhau.

Cafwyd wybod am gyfarfod wedi ei drefnu gyda Christian Branch, adran economaidd CSYM bore Gwener Mawrth 13 am 10 or gloch. Bu'r pwyllgor argymell bod gwahoddiad i'r cyngor llawn gwrdd ag o. Mae gobaith bydd cynrychiolydd perchenog Safle Octel hefyd yn ymuno a'r cyfarfod.

Bu tynnu sylw at lythyr gan Clwb Pel Droed Amlwch yn nodi nad oeddent wedi cofrestru y prydles gyda'r Gofrestrfa Tir o fewn yr amser penodedig. Bu'r pwyllgor cyllid argymell cynnig prydles 25 mlynedd o'r newydd ar yr un telerau, i gychwyn o fis Ionawr 2026. Ni fu gwrthwynebiad. Nodwyd mai dyletswydd y Clwb oedd cofrestru'r prydles. Bu Alan Wood atal ei bleidlais gan nodi ei fod ynghlwm a'r Clwb.

Bu diolch i Myrddin Owens am ei adroddiad.

*A report was given by Myrddin Owens following the committee meeting. A number of payments were approved, as usual further details are available from the clerk. The balance of each bank account was confirmed.*

*A request for financial support from a parent on behalf of Amlwch Football Club's under 14 football team was considered. The committee recommended not to support this time, and encouraged contact with Medrwn Mon to see if there were any grants available. The Full Council accepted the proposal. Alan Wood withheld his vote indicating involvement with the club. It was noted that further information was expected from Yr Arwydd before their request could be fully considered and the discussion was postponed until the next meeting.*

*In response to the specification for cutting the playing fields for the next three years, three sealed envelopes were opened at the meeting. The committee recommended that the Council accept the lowest price for the work, Sion Williams, Valley. There was no objection, the clerk to contact and the contractors to confirm.*

*There has been no update regarding the Port buildings, further information is expected from the solicitor, he is also expecting further information from IACC. Alan Wood asked that the solicitor be contacted again stating that another season of use of the building had been lost. There was no seconder. It was noted that safeguarding the building is important and that work to do so continues.*

*Those present were informed of a meeting arranged with Christian Branch, IACC's economic department on the morning of Friday March 13 at 10am. The committee recommended that the full council be invited to meet with him. It is hoped that a representative of the Octel Site owner will also join the meeting.*

*Attention was drawn to a letter from Amlwch Football Club stating that they had not registered the lease with the Land Registry within the specified time. The finance committee recommended offering a new 25-year lease on the same terms, to start from January 2026. There was no objection. It was noted that it was the Club's responsibility to register the lease. Alan Wood withheld his vote stating that he was involved with the Club.*

*Myrddin Owens was thanked for his report.*

**7 Diweddariad Adeiladau Porth Amlwch Port Buildings Update**

Gweler adroddiad y pwyllgor cyllid uchod / *See finance report above.*

**8 Cynllunio / Planning**

8.1 Bu ystyried nifer o geisiadau. Cadarnhawyd bod manylion wedi eu hanfon drwy ebost wrth eu derbyn:
*A number of applications were considered. It was confirmed that details were forwarded as received:*

- 53 Stryd Bethesda - Llecyn Parcio Anabl/Disabled Parking Bay – dim gwrthwynebiad/no objection
- DEM/2026/2 – Modurdai Craig y Don Garages – dim gwrthwynebiad/no objection
- DEM/2026/3 – Modurdai Maes Llwyn Garages – dim gwrthwynebiad/no objection
- FPL/2026/4 – Capel Zion, Burwen – dim gwrthwynebiad/no objection
- HHP/2025/89 – Borthwen, Amlwch – dim gwrthwynebiad/no objection
- FPL/2026/15 – Stad Diwydiannol Amlwch Industrial Park – dim gwrthwynebiad/no objection
- FPL2026/11 – 3 Stryd y Frenhines/Queen Street a/and
- FPL/2026/12 – 2 Stryd Mona – bu trafod y ddau gais yma ar y cyd gan eu bod wedi eu cyflwyno gan yr un unigolyn, ac am newid defnydd y ddau siop i gaffis. Bu tynnu sylw at saith lythyr gan gwmniau lleol yn gwrthwynebu'r cais a bu gofyn i Aled Morris Jones gyflwyno rheini i'r swyddogion perthnasol yn yr adran gynllunio. Trafodwyd nifer yr eiddo gwag yng nghanol y dref yn ogystal â'r angen am gyflogaeth â thâl. Ystyriwyd hefyd y ddarpariaeth bresennol o siopau bwyd yn yr ardal gyfagos a chynigiwyd, ar y cyfan, y dylid gwrthod y ceisiadau cynllunio ar sail gorddatblygiad a chrynodiad siopau bwyd yn yr ardal gyfagos. Pleidleisiodd Alan Wood a Liz Wood o blaid y cais tra bod Meg Roberts, Julie Edwards, Gerry Belanger, Noel Kerr, Myrddin Owens, Gordon Warren a Gareth Winston Roberts wedi pleidleisio i wrthwynebu'r cynigion a gyflwynwyd.

  *The two applications were discussed jointly as they were presented by the same individual, and for changing the use of the two shops to cafes. Attention was drawn to seven letters from local businesses objecting to the application and Aled Morris Jones was asked to present those to the relevant officers in the planning department. The number of vacant properties in the town centre were discussed as was the need for paid employment. The current provision of food outlets in the immediate area was also considered and it was proposed, on balance that the planning applications be refused on grounds of overdevelopment and the concentration of food outlets in the immediate area. Alan Wood and Liz Wood voted in support of the application whilst Meg Roberts, Julie Edwards, Gerry Belanger, Noel Kerr, Myrddin Owens, Gordon Warren and Gareth Winston Roberts voted to object to the proposals presented.*

8.2 Cafwyd wybod am benderfyniadau CSYM fel a ganlyn:
*IACC decisions were noted as follows:*

- FPL/2025/220 – 15 Stryd Salem St – wedi ei ganiatau / approved
- FPL/2025/241 – The Barn, Hafodllin Fawr – wedi ei wrthod / refused
- VAR/2025/45 – HSBC, Stryd y Frenhines/Queen St – wedi ei ganiatau / approved

8.3 Apel / Appeal
Cafwyd wybod bod apel wedi ei gyflwyno i PEDW yn erbyn penderfyniad CSYM i wrthod cais cynllunio FPL/2025/159, 'caniatad dros dro ar gyfer adleoli menter cadw gwenyn a chynhyrchu mel presennol, codi anedd, stablau, gweithdy a swyddfa dros dro ac addasu'r fynedfa bresennol yng Nghraig Ddu'. Nodwyd bod y Cyngor Tref wedi gwrthwynebu'r cais yma pob tro iddo gael ei gyflwyno, a bod teimlaf cryf yn erbyn y cais yn lleol. Cytuno bod y clerc yn ymateb i'r llythyr apel drwy ategu'r pwyntiau sydd eisioes wedi eu cyflwyno mewn ymateb i'r ceisiadau blaenorol.

*It was noted that an appeal has been submitted to PEDW against the IACC decision to reject planning application FPL/2025/159, 'temporary permission for the relocation of the existing beekeeping and honey production enterprise, the temporary siting of a dwelling, stables, garage, workshop and office, alterations to the existing vehicular entrance at Craig Ddu'. It was noted that the Town Council has opposed this application every time it has been presented, and that I feel strongly against the application locally. Agree that the clerk responds to the appeal letter drawing attention again to the points that have already been submitted in response to the previous applications.*

8.4 Datblygiad Arfaethiedig Ffordd Tan y Bryn Road Proposed Development
Cadarnhawyd bod gwybodaeth am ymgynghoriad cyn ymgeisio y datblygiad uchod wedi ei rannu a'r aelodau drwy ebost, a bod nifer wedi mynychu'r digwyddiad ymgynghori a gynhaliwyd gan gwmni Cadnant Planning. Nodwyd siom nad oedd atebion i nifer o'r cwestiynnau a godwyd yn ystod y sesiwn.

Mae bwriad cyflwyno cais cynllunio ar gyfer codi 52 o dai ar dir ger Maes Llwyn. Nodwyd bod nifer o drigolion lleol yn bryderus iawn am y cynllun. Trafodwyd nifer o bryderon a chytuno byddai'r Cyngor yn ymateb i'r ymgynghoriad gan dynnu sylw at y pryderon canlynol, a gwahodd y datblygwr i fynychu cyfarfod y Cyngor i drafod ymhellach (dim mewn unrhyw drefn penodol):

- Carffosiaeth a dwr gwyneb, mae'r ardal yn wlyb iawn ac yn gorflifo mewn tywydd gwlyb
- Effaith amgylcheddol, pryder am golli coed aeddfed a bywyd gwyllt ar y safle
- Diogelwch cymdogion cyfagos – unedau cymysg, tenantiaid trafferthus posib
- Gwaith daearegol / drilio – pryder am ddiogelwch tai presennol, rhai eisioes wedi cael gwaith i'w diogelu rhag dymchwel, hefyd pryder am y gwaith yn tarfu ar drigolion lleol – swn, llwch, cyfnod gwaith
- Pryder am nifer ychwanegol o gerbydau ar y ffordd, ger Ysgol, ac yn enwedig yn ystod y cyfnod adeiladu petai yn cael caniatad.
- Pryder am reolaeth y cartrefi, sicrhau tai i bobl leol, yr effaith posib ar yr iaith a diwylliant
- Pryder am or-ddatblygu – bydd hwn y trydydd datblygiad o faint sylweddol yn y dref
- Pwysau ar wasanaethau megis gwasanaethau brys, meddygfa ayyb
- Sicrhad byddai'r rent yn fforddiadwy ac y byddai pobl sy'n gweithio yn gallu eu fforddio nid yn unig rheini sydd ar fudd-daliadau
- Gofynnwyd am sicrwydd byddai unrhyw gontractwyr yn gweithio ar y safle petai yn cael ei gymeradwyo, yn cyflogi pobl lleol.
- Pryderon am bolisi gosod tai CSYM

Bu hefyd gofyn i'r Cynghorwyr Sirol wahodd Ned Michael, pennaeth yr adran dai i gwrdd a'r Cyngor Tref i drafod pryderon am, a chael gwybodaeth pellach am y datblygiadau tai cymdeithasol / fforddiadwy sydd ar y gweill yn Amlwch (Maes Mona, Madyn, Tan y Bryn – dros 120 o dai)

*It was confirmed that information about the pre-application consultation of the above development had been shared with the members by email, and that a number had attended the consultation event held by the developers Cadnant Planning. Disappointment was noted that there were no answers to many of the questions raised during the session. It is intended to submit a planning application for the construction of 52 houses on land near Maes Llwyn. It was noted that a number of local residents were very concerned about the proposals. A number of concerns were discussed and it was agreed that the Council would respond to the consultation drawing attention to the following concerns, and invite the developer to attend the Council meeting to discuss further (not in any particular order):*

- *Sewerage and surface water, the area is very wet and floods in wet weather*
- *Environmental impact, concern about the loss of mature trees and wildlife on the site*
- *Security of nearby neighbours – mixed units, potential nuisance tenants*
- *Geological work / drilling - concern about the safety of existing houses, some have already had work done to underpin and secure, also concern about the work disturbing local residents - noise, dust, timescale of work*
- *Concern about an additional number of vehicles on the road, near a School, and especially during the construction period if permission were to be granted.*
- *Concern about the management and letting of the homes, securing housing for local people, the possible impact on the language and culture*
- *Concern about over-development – this will be the third major development in the town*
- *Pressure on services such as emergency services, surgery etc*
- *Assurance that the rent would be affordable and that working people would be able to afford it not only those on benefits*
- *Assurance was sought that any contractors would work on the site if approved, employing local people.*
- *Concerns about the IACC housing letting policy*

*The County Councillors were also asked to invite Ned Michael, head of the housing department to meet with the Town Council to discuss concerns about, and obtain further information about, the social / affordable housing developments that are underway in Amlwch (Maes Mona, Madyn, Tan y Bryn - over 120 houses)*

**9 Cod Ymddygiad / Code of Conduct**

Bu cynnwys yr eitem ar gais Liz Wood. Bu iddi bwysleisio pwysigrwydd bod pob aelod yn ymwybodol o benderfyniad ac adroddiad yr Ombwdsmon. Nododd bod eitem fel arfer yn aros ar yr agenda nes bod adroddiad yn cael ei gyflwyno a'r mater wedi ei gwblhau.

Bu gadarnhau bod yr eitem wedi ei gynnwys ar agenda'r pwyllgor cyllid ar gyfer mis Ionawr, ond nad oedd diweddariad i'w gyflwyno yn y cyfarfod hwnw, bu cynnwys adroddiad cynhwysfawr fod bynnag fel rhan o adroddiad y pwyllgor yng nghyfarfod y Cyngor Llawn a bu nodi bod yr adroddiad llawn oedd bellach wedi ei dderbyn gan Swyddfa'r Pmbwdsmon gan y clerc os oedd unrhyw aeloed am ei ddarllen dros eu hunain.

Nododd Liz Wood ei siom bod y pwyllgor cyllid wedi ei diddymu a pwyllgor o'r newydd wedi ei benodi gydag nifer o'r un aelodau. Cafwyd wybod bod pob aelod ond am dau wedi ymddiswyddo ac felly bod y Cyngor yn unol a'r rheolau sefydlog wedi diddymu'r pwyllgor fel a fu.

Cafwyd gadarnhad mai darparu canllaw a chyngor i'r Cyngor a'i bwyllgorau oedd rol y clerc ac nid i ddarparu gwybodaeth canllaw o'r fath i aelodau unigol.

Bu tynnu sylw bod adroddiad yr Ombwdsmon wedi argymell bod yr aelod dan sylw yn mynychu hyfforddiant Cod Ymddygiad. Bu nodi bod yr hyfforddiant yma eisioes wedi ei gwblhau ac nad oedd bwriad mynychu hyfforddiant pellach.

*The item was included at the request of Liz Wood. She emphasized the importance of all members being aware of the Ombudsman's decision and report. It was noted that an item usually remains on the agenda until a report is presented and the matter is closed.*

*It was confirmed that the item had been included on the agenda of the finance committee for the month of January, but that there was no update to be presented at that meeting, a comprehensive report was however included as part of the committee's report at the Full Council meeting and it was noted that the full report from the Ombudsman's Office was available with the clerk should any member wanted to read it for themselves.*

*Liz Wood noted her disappointment that the finance committee had been dissolved and a new committee had been appointed with many of the same members. It was noted that all but two members had resigned and therefore that the Council in accordance with the standing orders had dissolved the committee as it was.*

*It was confirmed that the role of the clerk was to provide guidance and advice to the Council and its committees and not to provide such guidance information to individual members.*

*It was noted that the Ombudsman's report recommended that the member in question attend Code of Conduct training. It was noted that this training had already been completed and that there was no intention of attending further training.*

**10 Cwestiynau i'r Cynghorwyr Sirol / Questions to the County Councillors**

10.1 Bu diolch i Aled Morris Jones am drefnu gyda CSYM ar gais Myrddin Owens bod posib i gerbyd Bron Prawf Cymru leoli eu gwasanaeth ym maes parcio Stryd Salem gan nad oedd posib defnyddio maes parcio'r Dinorben. Bydd hyn yn sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau yn Amlwch. Nodwyd siom bod y gwasanaeth wedi ei ad-leoli i Langefni yn ddirybydd a heb unrhyw ymchwil am leoliad arall yn y dref. Bu Myrddin Owens gadarnhau ei fod wedi derbyn sicrwydd bydd y cerbyd yn dychwelyd i Amlwch wythnos nesaf a bydd y gwasanaeth yn parhau yn y dref i'r dyfodol. Bu diolch hefyd i'r Dinorben am groesawy'r cerbyd dros y blynyddoedd diwethaf a chynnig gwasanaeth pwysig i ferched yr ardal.

*Aled Morris Jones was thanked for arranging with the IACC at the request of Myrddin Owens that the Breast Test Wales vehicle could locate their services in the Salem Street car park as it was not possible to use the Dinorben car park. This will ensure that the service continues in Amlwch. Disappointment was noted that the service had been relocated to Llangefni without notice and without any research for another location in the town. Myrddin Owens confirmed that he has received assurances that the vehicle*

*will return to Amlwch next week and the service will continue in the town for the future. The Dinorben were also thanked for welcoming the vehicle over many years and offering an important service to the women of the area.*

10.2 Bu Meg Roberts dynnu sylw at gais am balmentydd wedi eu gostwng ym Maes Salem, deallwyd gan Liz Wood ei bod eisioes wedi cysylltu a'r swyddogion perthnasol.

*Meg Roberts drew attention to a request for dropped kerbs in Maes Salem, Liz Wood noted that she had already contacted the relevant officers*

10.3 Bu tynnu sylw at gais am blac coffa ar mainc ym Mhorth Llechog, bu cadarnhau derbyn llythyr ac mae'r mater bellach yn cael sylw gan y clerc.

*Attention was drawn to a request for a memorial plaque on a bench in |Bull Bay, receipt of a letter was confirmed and the matter is now being addressed by the clerk.*

**11 Gohebiaeth / Correspondence**

11.1 Ni fu unrhyw ohebiaeth nad oedd wedi ei anfon at yr aelodau drwy ebost wrth ei dderbyn.
*There were no items of correspondence not already circulated to members by email as and when received.*

11.2 Bu tynnu sylw at ebost ym ymwneud ag ymchwiliad cyhoeddus ar gyfer achos llwybr Parys Farm. Bydd rhannu wy o wybodaeth unwaith bydd dyddiad a lleoliad wedi'i gadarnhau.

*Attention was drawn to an email relating to a public inquiry for the Parys Farm path case. Information will be shared once a date and location has been confirmed.*

11.3 Bu tynnu sylw am wahoddiad i gyfarfod i drafod ail ddechrau Gwyl Gerdded Mon, cytuno cydnabod y gwahoddiad a gofyn am ddiweddariadau perthnasol.

*Attention was drawn to an invitation to a meeting to discuss the restart of the Mon Walking Festival, agreement to acknowledge the invitation and request relevant updates.*

11.4 Bu atgoffa rheini oedd yn bresennol bod gorymdaith Gwyl Dewi bore fory am 10 o'r gloch.
*All present were reminded that the St David's Day parade was taking place at 10am tomorrow.*

**12 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf / Date of Next Meeting**

Bydd cyfarfod nesaf y Cyngor Llawn i'w gynnal nos Fawrth, Mawrth 24, 2026 am 7yh.
*The next Full Council meeting will be held Tuesday, March 24, 2026 at 7pm.*

Bu'r cyfarfod orffen am 8.30yh / *The meeting closed at 8.30pm*

**Gareth Winston Roberts OBE**
**Cadeirydd/Chair**
**Cyngor Tref Amlwch Town Council**
CET02-26